# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Adroddiad Etifeddiaeth

## Tystiolaeth gan Gymdeithas yr Iaith

- Diolchwn i'r Pwyllgor am y gwaith pwysig y gwna yn sgriwtineiddio polisi llywodraeth ar feysydd polisi diwylliant, y Gymraeg a chyfathrebu.

- Mae'r ffaith fod Pwyllgor o'r fath yn bodoli, gyda'r Gymraeg yn rhan o'i henw a'i gylch-gorchwyl, yn rhywbeth i'w groesawu gan nad oedd wastad pwyllgor o'r fath yn bodoli yn y Senedd.

- Hoffem ganmol y Pwyllgor am ymdopi'n effeithiol i'r heriau sy'n codi yn sgîl Cofid 19; yn benodol, mae defnydd y Pwyllgor o dechnoleg wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac wedi arwain at wneud gwaith y Pwyllgor yn fwy hygyrch. Wrth symud ymlaen heibio'r pandemig, dylai'r Pwyllgor barhau i ganiatáu i bobl gyflwyno tystiolaeth yn rhithiol gan nad yw gorfodi pobl i fynd i'r Senedd er mwyn iddynt allu rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn hygyrch, ac arweinia yn ogystal at ogwydd daearyddol yn y dystiolaeth y mae'r Pwyllgor yn ei gasglu.

- Nid oes mecanwaith yn bodoli sy'n golygu fod is-reoliadau, ac yn benodol Safonau'r Gymraeg, yn cael eu craffu'n iawn. Mae Safonau yn y maes iechyd yn enghraifft o hyn. Fe ddylai'r Pwyllgor unioni hyn wrth symud ymlaen.

- Gweithreda'r Pwyllgor yn aml mewn modd sefydliadol wrth ymgynghori ag eraill, er enghraifft, ceir pwyslais digonol ar ymgynghori gyda S4C y BBC ac ITV tra nad oes digon o bwyslais ar ymgynghori gyda phobl gyffredin. Credwn y dylai'r Pwyllgor gynyddu'r cyfleoedd sydd gan bobl gyffredin i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor a'u cynnwys yn rhan ganolog o'u hymgynghoriadau.

Mabli Siriol
Cadeirydd
**Cymdeithas yr Iaith**

mabli@cymdeithas.cymru